**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 24 Tachwedd 2021 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C R Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J P Curtice | S J Gallagher | P R Hood-Williams |
| Y V Jardine | M Jones | H Lawson |
| L V Walton | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Anthony Richards | Rheolwr Datblygu Strategaeth Tlodi a'I Atal |
| Katie Spendiff | Cydlynydd Hawliau Plant |
| Lisa Thomas | Uwch-gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): G J Tanner

---

## 27 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 28 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl a gynhaliwyd ar 27 Hydref 2021 fel cofnod cywir.

## 29 Diweddariad ar y Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc. (Diweddariad Llafar)

Rhoddodd Katie Spendiff, Cydlynydd Hawliau Plant, y diweddaraf ar lafar ar y Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc.

Roedd yr ymgynghoriad ar y cynllun Hawliau Plant a'r blaenoriaethau ar gyfer plant a phobl ifanc wedi dod i ben ac roedd adroddiad wedi'i gymeradwyo gan y cyngor ym mis Tachwedd.

Roedd 20 Tachwedd yn nodi Diwrnod Byd-eang y Plant a 32ain pen-blwydd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Roedd pecyn adnoddau wedi'i ddosbarthu i bob ysgol a sefydliad o fewn y Rhwydwaith Hawliau Plant yn Abertawe i nodi'r digwyddiad.

Roedd nifer o weithdai wedi'u trefnu ar gyfer y rhwydwaith hawliau plant ac ar gyfer plant a phobl ifanc mewn perthynas â'r cynllun gweithredu ar gyfer cyfranogiad a chydraddoldeb.

Lluniwyd chwe thema allweddol, gyda'r mwyaf yn canolbwyntio ar y ddwy thema ddiogelu ganlynol:

1. **Cydraddoldeb i gymuned LGBTQ pobl ifanc -** sy'n cael ei hystyried gan y Bwrdd Diogelu Pobl Ifanc Rhanbarthol. Roedd pecyn adnoddau, a ddatblygwyd gan 26 o bobl ifanc, wedi'i argraffu a'i lansio ar gyfer pob ysgol yng Nghastell-nedd, Port Talbot ac Abertawe, a ariannwyd gan Fwrdd Diogelu Bae'r Gorllewin.

2. **Diogelwch menywod ifanc mewn mannau cyhoeddus -** roedd gwaith amrywiol yn mynd rhagddo o ran diogelwch menywod ifanc yn Abertawe gan gynnwys gwaith gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu De Cymru i gynnal fforymau. Roedd gweithgor bach a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o ysgolion, yr Awdurdod Addysg, y ganolfan cam-drin domestig, yr Heddlu, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Freedom Leisure ac Adran Chwaraeon Cyngor Abertawe wedi dechrau.

   Gweithio gyda'r Uned Trais Domestig a'r Heddlu ynghylch "Diwrnod Rhuban Gwyn" i ddatblygu adnoddau addysgol o ran yr hyn y gallai dynion ifanc ei wneud i helpu i ddiogelu menywod ifanc a'u cadw'n ddiogel.

   Roedd 37 o bobl ifanc wedi cymryd rhan mewn sgyrsiau lleol i drafod y materion a'r hyn y gellid ei wneud mewn perthynas â diogelwch menywod ifanc.

- **Pleidleisio yn 16 oed** - penodwyd swyddog yn rhan-amser yn ddiweddar i gefnogi'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd i ymgysylltu â phleidleiswyr, gan gynnwys pobl ifanc mewn perthynas â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda Swyddfa'r Comisiynwyr Plant i gynyddu ymwybyddiaeth o'r gallu i gofrestru i bleidleisio, i ddeall y broses bleidleisio a ble a sut i gael gafael ar wybodaeth.

- **Gwarchod yr amgylchedd lleol a newid yn yr hinsawdd** – roedd pobl ifanc wedi cysylltu â phenaethiaid, Canolfan yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru. Byddai fforwm yn cael ei gynnal ym mis Ionawr i bennu blaenoriaethau er mwyn diogelu'r amgylchedd/mannau lleol.

  **Dinas Hawliau Dynol** – roedd gwaith wedi mynd rhagddo i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn y gymuned, ysgolion a grwpiau cymunedol. Roedd y Cynghorydd Gibbard wedi ymweld ag ysgolion i siarad â phlant a phobl ifanc am yr hyn y gallai ei olygu i fod yn Ddinas Hawliau Dynol. Hyd yn hyn, roedd

93 o blant a phobl ifanc o 7 ysgol gynradd a 2 ysgol uwchradd wedi cymryd rhan gyda 4 ysgol arall yn cymryd rhan yn ail wythnos mis Rhagfyr.

Dywedodd y Cydlynydd Hawliau Plant y byddai holl waith y fforwm yn canolbwyntio ar gydgynhyrchu gyda'r plant a'r bobl ifanc.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cydlynydd Hawliau Plant am y diweddariad a mynegodd ei fod yn edrych ymlaen at dderbyn diweddariadau pellach maes o law.

**30 Datblygu Strategaeth Wirfoddoli Cyngor Abertawe. (Diweddariad Llafar)**

Rhoddodd Amy Hawkins, Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau i Oedolion, gyda chefnogaeth Anthony Richards, Rheolwr Strategaeth a Datblygu Tlodi a'i Atal, yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu Strategaeth Gwirfoddoli Cyngor Abertawe.

Amlinellodd Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion y gwaith rhanbarthol a oedd wedi symud ymlaen a oedd yn cynnwys adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig gan gynnwys y cynnydd mewn gwirfoddolwyr, eu cefnogaeth a'r arfer da gan gynnwys hyrwyddo'r adnoddau ar gyfer gwirfoddoli.

Fel rhan o'r ffocws ehangach ar y rhanbarth o amgylch pwysau'r gaeaf a sut rydym yn cysylltu gwirfoddolwyr â chymorth o amgylch pwysau'r gaeaf, cynhaliwyd digwyddiad o'r enw "Posibiliadau ar gyfer Pobl" yr wythnos flaenorol gyda nifer o bartneriaid gan gynnwys y cyngor a'r Bwrdd Iechyd Lleol ynghyd â phreswylwyr, y sector cyhoeddus a phreifat a'r gymuned i ystyried sut y gellid lleihau'r galw ar y gwasanaethau statudol gyda gwaith yn mynd rhagddo ar sawl syniad cadarnhaol a awgrymwyd.

Yn ogystal, roedd gwaith ar sut rydym yn cefnogi gwirfoddolwyr mewn cartrefi gofal a throi gwirfoddoli'n yrfa hefyd yn mynd rhagddo.

Eglurodd y Rheolwr Strategaeth a Datblygu Tlodi a'i Atal fod adborth cadarnhaol wedi dod i law gan swyddogion ac Aelodau'r Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl yn y gweithdy a gynhaliwyd ym mis Hydref.  Roedd yr adborth hwnnw'n cael ei ddefnyddio i gynllunio'r sesiynau gweithdy eraill a grybwyllir uchod a byddai'r gweithgor hwnnw hefyd yn ystyried ffyrdd y gellid cydgynhyrchu'r Strategaeth.

Cynhaliwyd trafodaethau i sicrhau bod cyllidebau ar waith gyda'r timau cynnal perthnasol o fewn y cyngor mewn perthynas â threuliau etc. i sicrhau bod egwyddorion craidd gwirfoddoli yn cael eu hymgorffori ledled yr Awdurdod.

Roedd ymchwil wedi'i gwneud gyda Strategaethau Gwirfoddoli Awdurdodau Lleol eraill a derbyniwyd adborth o ran llunio'r hyn y byddai'r gweithgor yn ei ystyried er mwyn datblygu'r Strategaeth ar gyfer Abertawe.

Amlinellwyd yr amserlenni, a oedd yn destun diwygio:

- Byddai sesiynau'r Gweithgor yn cael eu cynnal yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror;

- Byddai Strategaeth ddrafft yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl ym mis Chwefror;
- Ymgynghoriad cyhoeddus ar y strategaeth ddrafft am o leiaf bedair wythnos.
- Yn dilyn ymgynghoriad, byddai gwaith ar y broses Asesu Effaith Integredig yn cael ei wneud i lywio'r Strategaeth derfynol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu diweddariad addysgiadol.

**31 Strategaeth Gofalwyr Ifanc. (Diweddariad Llafar)**

Y diweddaraf wedi'i ohirio i'r cyfarfod nesaf.

**32 Cynllun Gwaith 2021-2022.**

Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2021-2022.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r Cynllun Gwaith yn amodol ar drafodaeth ynghylch yr eitemau i'w cynnwys ar yr agenda ar gyfer cyfarfod 22 Rhagfyr 2021.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.39 pm

**Cadeirydd**